

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

CAIS Limited, Hafan Wen

Dyddiad y gweithgarwch: 19 Ionawr 2021

Dyddiad cyhoeddi: 23 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Hafan Wen fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae CAIS Ltd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaethau ysbyty annibynnol yn Hafan Wen, Watery Road, Wrecsam. Mae Hafan Wen yn darparu amrywiaeth o raglenni dadwenwyno cyffuriau ac alcohol i gleifion y GIG a rhai preifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Chyfarwyddwr y Gwasanaeth Preswyl ar 19 Ionawr 2021 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am y lleoliad. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol a Therapiwtig (Unigolyn Cyfrifol) a Nyrs sy'n Rhagnodi CAIS hefyd yn bresennol. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn y lleoliad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut rydych yn sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod amgylchedd y lleoliad yn ddiogel ac yn amddiffyn cleifion rhag niwed, a sut rydych yn sicrhau bod urddas y cleifion yn cael ei gynnal?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd yr oedd y gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau ac unrhyw achosion o friwiau pwyso neu niwed i'r meinwe. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Disgrifiwyd y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd o ganlyniad i COVID-19. Dywedwyd wrthym fod posteri ar y waliau a sticeri ar y llawr er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol ac i reoli symudiadau'r staff. Yn ogystal â hyn, roedd posteri ar gael yn ymwneud â hylendid dwylo. Gosodwyd cyfyngiadau ar nifer y staff a chleifion a ganiateir ym mhob ystafell hefyd.

Roedd yr hunanasesiad a ddarparwyd yn nodi bod yr amgylchedd gofal bob amser yn daclus er mwyn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol; wedi'i gynnal a'i gadw'n dda; mewn cyflwr da; ac yn cael ei lanhau'n rheolaidd yn unol â Safonau Glanhau Cenedlaethol yng Nghymru<sup>1</sup>. Roedd dillad gwely glân yn cael eu storio mewn ardal ddynodedig lân, wedi'i chynnal a'i chadw'n briodol, a oedd wedi'i hamgáu.

Cawsom dystiolaeth o Ffurflen Aseiad Risg Adeilad Blyneddol CAIS a oedd yn gyfredol ac yn cwmpasu pob ardal o'r lleoliad. Roedd y ffurflen hefyd yn nodi bod y trefniadau cadw tŷ a'r arwyddion yn rhagorol. Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o drefniadau iechyd a diogelwch a'u pwysigrwydd a bod gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal gan reolwr y lleoliad. Roedd hyn yn cynnwys ardal yr ardd a oedd wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ac roedd pob claf yn cael asesiad risg cyn cael caniatâd i fynd i mewn i'r ardd.

Dywedwyd wrthym fod y weithdrefn gweithredu safonol ar gyfer y lleoliad wedi'i chynhyrchu ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol. Roedd y weithdrefn gweithredu safonol yn tynnu sylw at brotocolau a gweithdrefnau mewn perthynas â chynnal amgylchedd diogel a gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol (PPE). O ganlyniad i holiadur cleifion yn dilyn cyfnod o ynysu, mae setiau teledu bellach wedi'u gosod ym mhob ystafell ac roedd lled band y wifi (swm y data y gellir ei anfon a'i dderbyn ar y tro) wedi'i wella. Yn ogystal ag elfen feddygol y llwybr dadwenwyno, roedd hefyd raglen therapiwtig yn seiliedig ar dystiolaeth. Darparwyd gweithgareddau therapiwtig drwy werslyfrau, trefniadau un i un, ac ymyriadau grŵp sy'n cefnogi cleifion drwy ddadwenwyno. Roedd y rhaglen therapiwtig ddiwygiedig bellach yn cael ei darparu drwy lwyfannau rhithwir yn bennaf. Roedd ymyriadau therapiwtig yn defnyddio egwyddorion therapiwtig yn seiliedig ar dystiolaeth megis Therapi Ymddygiadol Gwybyddol<sup>2</sup> (technegau Gwybyddol a Chymhellol), Derbyn Ymwybyddiaeth Ofalgar<sup>3</sup> a Therapi

<sup>1</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/254/Cleaning%20Standards2009ed.pdf>

<sup>2</sup> <https://www.nhs.uk/conditions/cognitive-behavioural-therapy-cbt/>

<sup>3</sup> <https://mindfulnessbasedhappiness.com/practice-acceptance-for-mindfulness-the-easy-way/>

---

Ymrwymo<sup>4</sup>.

Nododd y staff, cyn dechrau'r pandemig, fod y sefydliad wedi buddsoddi dros £250k ar waith adnewyddu a oedd yn cynnwys lloriau, ffenestri a bleinds newydd ym mhob rhan o'r lleoliad. Yn ogystal â hyn, cafodd y gampfa, yr ardaloedd cymunedol a'r tir eu gwella i ddarparu ar gyfer unrhyw gleifion sydd â phroblemau symudedd. Roedd y staff yn teimlo bod defnyddio deunyddiau dodrefn o ansawdd gwell, gwaith celf a dyfyniadau ysbrydoledig wedi helpu i ddarparu amgylchedd o ansawdd gwell a oedd yn llai clinigol ac felly'n fwy cartrefol a chyfforddus i gleifion. Roedd y lleoliad wedi ymgysylltu â chomisiynwyr a gweithwyr allweddol drwy ddefnyddio technoleg er mwyn sicrhau nad oedd cleifion yn cael eu hynysu ar y daith wella. Roedd y lleoliad hefyd yn falch ei fod wedi cael ei gynnwys yn y gwaith o ddatblygu System Sgrinio Cyffuriau Ôl-bys Ddeallus. Roedd hon yn system anfewnwithiol yn defnyddio chwys olion bysedd yn lle dadansoddiad wrin er mwyn gwella urddas cleifion.

Er mwyn cynnal urddas cleifion ymhellach, dywedwyd wrthym fod nodi nodweddion y cleifion cyn eu derbyn a meddu ar wybodaeth helaeth am hanes y cleifion, gan gynnwys eu crefydd, yn bwysig. Roedd yr asesiad hwn o angen hefyd yn nodi problemau iechyd meddwl, problemau corfforol, problemau cymdeithasol a hanes defnyddio cyffuriau ac alcohol. Roedd asesiad manwl hefyd o batrwm presennol defnyddio cyffuriau ac alcohol a'r symiau a ddefnyddir yn ogystal â'r lefel ddibyniaeth yn seiliedig ar brofiadau diddyfnu'r defnyddiwr gwasanaeth.

Cyn COVID-19, cawsom wybod bod cleifion yn defnyddio ardal fwyta gymunedol a'u bod yn casglu eu meddyginiaethau o ystafell y clinig. Ers y pandemig, roedd y staff yn mynd â phrydau bwyd a meddyginiaethau at y cleifion. Roedd y staff a'r cleifion wedi ffurfio "swigod" therapiwtig amrywiol (grŵp ehangach o bobl sy'n gallu rhyngweithio a chyfathrebu â'i gilydd), ac yna roedd y staff yn darparu'r prydau a'r meddyginiaethau i'r cleifion yn eu swigod.

Dywedwyd wrthym na chaniateir ymwelwyr ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig, a phrin y caniatwyd ymwelwyr cyn COVID-19, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Roedd ymweliadau gan weithwyr proffesiynol yn cael eu cynnal o bell. Roedd gan gleifion fynediad llawn ac anghyfyngedig at ffonau symudol. Roedd rhan o drefniadau addysg y lleoliad yn cynnwys defnydd cadarnhaol o'r cyfryngau cymdeithasol a chyfeirio cleifion at asiantaethau amrywiol er mwyn eu helpu wrth iddynt wella.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y lleoliad wedi datblygu asesiad risg COVID-19, er mwyn nodi anghenion y cleifion yn ystod y cyfnod cychwynnol o hunanynysu. Roedd anghenion iechyd meddwl yn cael eu diwallu gan staff cymwys drwy fideo. Roedd y cynlluniau gofal yn seiliedig ar y pum cam at lesiant<sup>5</sup>. Roedd gan y lleoliad gysylltiad da â chrefyddau

---

<sup>4</sup> [https://en.wikipedia.org/wiki/Acceptance\\_and\\_commitment\\_therapy](https://en.wikipedia.org/wiki/Acceptance_and_commitment_therapy)

<sup>5</sup> <https://www.mind.org.uk/workplace/mental-health-at-work/taking-care-of-yourself/five-ways-to-wellbeing/>

---

lleol. Roedd y lleoliad hefyd yn ymgysylltu â Shropshire Recovery Partnership<sup>6</sup> a Red Rose Recovery<sup>7</sup>, er mwyn darparu help a chymorth pellach i unrhyw un sy'n wynebu problemau gydag alcohol a chyffuriau yn ystod pandemig COVID-19.

Gwelsom nifer o asesiadau risg cyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau pwyntiau clymu ar gyfer pob un o ardaloedd y lleoliad, gyda chamau gweithredu perthnasol er mwyn lleihau'r risg o unrhyw bwyntiau clymu ac asesiadau risg amgylcheddol.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd yr oedd y gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried pa mor dda yr oedd y gwasanaeth wedi rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod sawl newid wedi cael eu rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal. Roedd asesiadau risg manwl mewn perthynas â COVID-19 wedi'u llunio ar gyfer y cleifion a'r staff. Roedd hefyd bolisi atal a rheoli haint COVID-19 dynodedig ar waith, a oedd yn cyfeirio at bolisiau rheoli heintiau eraill yng ngweithdrefnau gweithredu'r lleoliad.

Nododd yr hunanasesiad a ddarparwyd y canlynol:

- Roedd y posibilrwydd o drosglwyddo haint neu gyfryngau heintus yn cael ei asesu cyn i glaf gael ei dderbyn i'r gwasanaeth, ac wrth dderbyn y claf hwnnw, ac roedd yn cael ei adolygu'n gyson drwy gydol ei amser yn y gwasanaeth
- Roedd hylendid dwylo, a'r canllawiau a'r cyfarwyddiadau cysylltiedig mewn meysydd allweddol, yn cael ei hybu, gan leihau trosglwyddiad cyfryngau heintus, gan gynnwys Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal lechyd wrth ddarparu gofal
- Roedd hylendid anadlol a chwarteisi wrth beswch yn cael eu hannog er mwyn cyfyngu ar hylifau anadlol er mwyn atal heintiau anadlol rhag cael eu trosglwyddo.
- Roedd gan y lleoliad gyflenwad helaeth o PPE a oedd yn sicrhau bod y staff a'r cleifion wedi'u diogelu'n briodol rhag y risgiau. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o fasnau wyneb sy'n ffitio'r unigolyn yn gywir pe bai achosion yn datblygu

---

<sup>6</sup> <https://shropshire.gov.uk/shropshire-choices/i-need-help/care-and-support-for-different-conditions/drugs-and-alcohol-shropshire-recovery-partnership-srp/>

<sup>7</sup> <https://www.redroserecovery.org.uk/>

- 
- Cynhaliwyd archwiliadau clinigol o'r ardaloedd clinigol er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw gyfarpar wedi'i halogi â gwaed neu unrhyw hylifau eraill y corff
  - Roedd rheolwr y lleoliad wedi cydlynu tîm dynodedig o lanhawyr a gontractiwyd o'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel i ymarfer ac roedd hyn yn cynnwys glanhau a chynnal a chadw'r amgylchedd.

Roedd y lleoliad o'r farn bod y polisi atal a rheoli heintiau yn mynd gam ymhellach nag unrhyw bolisi arall drwy sicrhau bod yr arferion hyn yn dod yn naturiol i'r staff a'r cleifion. Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i'r canllawiau, roedd y lleoliad yn cael diweddariadau dyddiol gan Lywodraeth Cymru ac yn diwygio'r canllawiau yn unol â'r llawlyfr electronig gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y staff yn ymwybodol bod y dogfennau hyn ar gael yn yr ardal dechnoleg gwybodaeth a rennir, ond roedd copïau caled yr oedd y staff wedi'u llofnodi a'u dyddio hefyd ar ffeil er mwyn dangos eu bod wedi darllen y wybodaeth. Roedd y canllawiau a ddarperir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd (NICE)<sup>8</sup> hefyd wedi'u cynnwys.

Dywedwyd wrthym fod cydberthynas gref â'r bwrdd iechyd lleol a oedd yn cynnwys cydweithio a mewnbwn gan yr arweinwyr clinigol a oedd wedi helpu gyda'r gwaith o recriwtio rheolwr y lleoliad yn ddiweddar. Cynhelir cyfarfod tîm amlddisgyblaethol bob wythnos rhwng staff clinigol y bwrdd iechyd a rheolwr y lleoliad hefyd i drafod materion â'r cleifion.

Dangoswyd i'r staff sut i ddefnyddio'r PPE yn gywir drwy gyfuniad o ganllawiau yn y lleoliad a fideos ar-lein. Roedd posteri ar gael yn y gorsafod PPE hefyd a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wisgo, diosg a gwaredu'r cyfarpar hwn ar ôl ei ddefnyddio. Roedd pob aelod o'r staff yn y lleoliad bellach yn gwisgo sgrys llawfeddygol, ac roedd gwisg ychwanegol yn cael ei darparu fel bod y sgrys a ddefnyddiwyd yn cael eu glanhau bob dydd.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu manteisio ar hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau, a oedd yn sicrhau eu bod yn deall ac yn cymhwyso egwyddorion atal a rheoli heintiau a'u bod yn deall eu bod yn gyfrifol am eu harferion eu hunain. Yn ogystal â hyn, roedd y staff yn cael eu hannog i gynnal eu cymhwysedd, eu sgiliau a'u gwybodaeth ym maes atal a rheoli heintiau. Cawsant eu hannog i wneud hyn drwy fynychu digwyddiadau addysg yn rhithiwr a chwblhau modiwlau hyfforddiant ar-lein.

Gwelsom dystiolaeth o'r adnodd achosion o COVID-19 a ddefnyddir er mwyn sicrhau bod data a gwybodaeth am COVID-19 yn gywir ac yn cael eu cofnodi'n amserol. Gwelsom hefyd dystiolaeth o'r canllawiau derbyn yn sgil COVID-19 mewn ymateb i'r pandemig a chanllawiau Llywodraeth y DU. Roedd y staff a'r cleifion yn cael prawf bob wythnos a chafodd cofnod ei gadw ym mhrif swyddfa'r lleoliad. Arhosodd y lleoliad ar agor yn ystod y pandemig heb unrhyw achosion o COVID-19 yn Hafan Wen nac yn unrhyw un o'i gyfleusterau eraill. Nodwyd bod y lleoliad yn parhau i dalu'r staff pan oeddent yn hunanynysu, er mwyn lleihau'r

---

<sup>8</sup> Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn rhoi canllawiau a chynghor cenedlaethol er mwyn gwella iechyd a gofal cymdeithasol.

---

posibilrwydd y byddai'r staff yn penderfynu peidio â hunanynysu oherwydd pryderon ariannol.

Pwysleisiodd y lleoliad bwysigrwydd asesiad risg ei weithle er mwyn nodi'r staff a'r cleifion yr oedd angen eu gwarchod. Roedd y lleoliad yn cadw mewn cysylltiad â'r staff a'r cleifion hyn drwy gydol y pandemig, ac roedd staff y brif swyddfa hefyd yn eu cefnogi. Roedd y lleoliad hefyd wedi nodi tîm o staff a oedd yn barod i aros yn y lleoliad pe bai angen rhoi cyfyngiadau symud ar waith yn y lleoliad.

Roedd gan bob claf ei ystafell ei hun gyda chyfleuster en-suite. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion hunanynysu yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedwyd wrth y cleifion bod angen iddynt hunanynysu pan oeddent yn cael eu derbyn ac roedd gweithdrefn ar waith i alluogi'r staff i nyrsio wrth y drws, oni bai bod angen darparu gofal mewn ffordd arall.

Cawsom gopïau o nifer o bolisiau a gweithdrefnau a oedd wedi'u hanelu at ymgorffori pwysigrwydd atal a rheoli heintiau mewn arferion pob dydd ac i leihau amrywiad ym mhrosesau gofal a safoni'r prosesau hynny. Roedd y polisiau hefyd wedi'u hanelu at y gwaith o gymhwyso gwybodaeth a sgiliau, ac yn helpu i leihau'r risg o Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, yn enwedig croesheintio a halogi.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC a oedd trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn y lleoliad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom edrych ar lefelau staffio a chleifion, hyfforddiant ac absenoldebau staff, strwythurau rheoli, swyddogaethau a chapasiti, digwyddiadau ac amrywiaeth o bolisiau (megis uwchgyfeirio).

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Er mwyn sicrhau bod nifer digonol o staff yn y lleoliad, dywedwyd wrthym fod y rheolwyr yn adolygu cynlluniau'r gweithlu bob chwarter. Roedd y lefelau staffio yn cael eu hasesu yn erbyn y gofynion sylfaenol. Gwelsom dystiolaeth bod y lefelau staffio gofynnol yn dibynnu ar nifer y cleifion. Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio ar gyfer 25 o gleifion yn cael eu cynnal, er bod uchafswm y cleifion wedi'i gyfyngu i 14 yn ystod y pandemig.

O ran swyddi gwag staff yn y sefydliad, dywedwyd wrthym fod gan y lleoliad gronfa staff ddynodedig sy'n cynnwys pedair nyrs gymwys ac wyth gweithiwr cymorth. Roeddent yn cael eu defnyddio pan oedd angen fel staff cyflenwi priodol yn ystod absenoldebau ac roeddent yn sicrhau parhad gofal ar bob sifft. Os bydd aelodau o'r staff yn mynd ar gyfnod mamolaeth, bydd y lleoliad yn cynnig contractau cyflogaeth byrdymor er mwyn sicrhau y gellir cynnal lefelau staffio priodol. Roedd y lleoliad wedi cael trafferth yn denu staff cymwys, er iddo gynyddu'r cyflog a hysbysebu gyda'r Coleg Nyrsio Brenhinol a'i gronfa ddata o staff. Roedd y



---

lleoliad hefyd wedi ceisio denu staff drwy ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a chydgysylltu â chydweithwyr nyrsio er mwyn ceisio denu nyrsys a oedd yn eu blwyddyn olaf. Dywedwyd wrthym y byddai tair swydd wag ar gyfer staff gweithwyr cymorth yn cael eu llenwi maes o law.

Dywedwyd wrthym hefyd fod capasiti ym modelau staffio'r lleoliad a oedd wedi sicrhau bod nifer y bobl mewn swyddi yn cyfateb i'r gwasanaeth a ragwelir. Roedd hyn hefyd yn ystyried y galw ac absenoldeb disgwylidig pob aelod o'r tîm ar draws y flwyddyn (gwyliau blynyddol, hyfforddiant a salwch cyfartalog). Cafodd cyfuniad o staff llawn amser a rhan amser eu cyflogi er mwyn cynnig hyblygrwydd i'r staff rhan amser gynyddu eu horiau (os oeddent am wneud hynny) yn ystod cyfnodau o alw mawr neu absenoldeb cynyddol.

Roedd yr hunanasesiad a ddarparwyd hefyd yn dangos, ar lefel weithredol, fod cyhoeddi rotas y staff yn galluogi'r staff i weld eu horiau dyletswydd ymhell ymlaen llaw. Yn ei dro, roedd hyn yn galluogi unigolion i gynllunio ymlaen llaw, gan helpu'r rheolwr i nodi adegau pan fyddai'r lefelau staffio yn is o ganlyniad i absenoldebau.

Disgrifiwyd y trefniadau a'r mentrau a gyflwynwyd er mwyn cefnogi llesiant y staff yn sgil COVID-19. Roedd y lleoliad o'r farn mai cyfathrebu ac annog y staff i gwestiynu pethau oedd y ffactorau allweddol. Roedd Prif Weithredwr CAIS yn cynnal gweminar<sup>9</sup> wythnosol a oedd wedi'i hanelu at gwestiynau a phryderon y staff. Gallai'r staff hefyd hunangyfeirio at gwmni llesiant annibynnol wedi'i gontractio gan y sefydliad. Roedd y nyrs sy'n rhagnodi hefyd wedi cynnig cymorth ffurfiol ac anffurfiol un i un i'r staff.

Cawsom dystiolaeth o'r ffordd yr oedd y lleoliad yn asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau. Roedd yr adborth hwn yn cael ei rannu â'r rheolwyr fel rhan o'r adroddiad ansawdd chwarterol. Dangosodd yr adroddiad ansawdd diweddaraf fod yr adborth a gafwyd yn dangos canlyniadau boddhad uchel. Roedd y staff a gafodd eu henwi yn yr adborth am eu gwaith da hefyd yn cael eu canmol yn bersonol am eu gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i fwrdd yr ymddiriedolwyr bob chwarter, gan gynnwys yr holl wybodaeth am foddhad cleifion a monitro perfformiad.

Cawsom dystiolaeth o adroddiadau ar ddigwyddiadau diweddar a dywedwyd wrthym am y weithdrefn rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Os oedd rhywbeth yn digwydd, roedd ffurflen yn cael ei chwblhau a byddai rheolwr y lleoliad yn ei hadolygu, a byddai unrhyw wersi a ddysgwyd neu newidiadau i'r weithdrefn yn cael eu rhannu â'r staff. Roedd y digwyddiadau hefyd yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwylio clinigol yn cael eu cynnal bob mis a bod

---

<sup>9</sup> Digwyddiad rhithwir a gaiff ei gynnal a'i ddarlledu gan sefydliad yw gweminar. Mae gweminar yn cynnig dull cyfathrebu unffordd i gyfranogwyr, ac fe'i gelwir hefyd yn weddarllodiad, digwyddiad ar-lein, a seminar ar y we. Mae'r siaradwr yn dangos cyflwyniad, sioe sleidiau, dogfennau neu elfen weledol arall er mwyn rhannu gwybodaeth newydd. Y nod yw addysgu cyfranogwyr am bynciau newydd, rhannu syniadau neu brofiadau, neu werthu cynnyrch.

---

cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob chwe wythnos, ond roedd y pandemig wedi effeithio ar y rhain. Roedd sesiynau goruchwyllo clinigol a sesiynau goruchwyllo rheolwyr llinell yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau gofal gofynnol, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer ymarfer myfyriol.

Cyn y pandemig, dywedwyd wrthym fod yr unigolyn cyfrifol fel arfer yn ymweld â'r lleoliad bob chwe wythnos, ond nid yw wedi gallu ymweld â'r lleoliad ers dechrau'r pandemig. Cawsom dystiolaeth o adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011<sup>10</sup>.

Cawsom gopi o'r polisi breintiau ymarfer mewn perthynas â chyflogi ymarferwyr meddygol er mwyn helpu i ddarparu'r gwasanaethau a ddarperir i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r ddogfen yn pennu'r cylch gorchwyl, y gweithdrefnau i'w dilyn cyn cyflogi a manylion y cytundeb rhwng CAIS a'r ymarferydd meddygol.

Gwelsom hefyd dystiolaeth o'r polisi <sup>11</sup>preceptoriaeth a oedd yn bwysig yn y gwaith o ddatblygu nyrsys a oedd newydd gael eu cofrestru a staff anghymwys a oedd yn dechrau gweithio yn y lleoliad. Roedd y weithdrefn a'r polisi preceptoriaeth hwn yn darparu gwybodaeth i reolwyr a nyrsys lefel un er mwyn rhoi preceptoriaeth ar waith yn y lleoliad. Roedd hefyd yn pennu fframwaith preceptoriaeth i'w ddefnyddio gan gyflogeion newydd a'u tiwtoriaid. Roedd yn darparu fframwaith cyffredin er mwyn hybu cysondeb o ran nyrsio a chefnogi'r staff a oedd yn ymgymryd â rôl yn y lleoliad am y tro cyntaf.

Cawsom dystiolaeth o nifer o weithdrefnau i gefnogi'r staff yn ystod y pandemig, ac roedd y rhain yn cynnwys Gweithio'n Ddiogel yn ystod COVID-19 a'r cynllun Parhad Busnes.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cawsom gopi o'r matrices hyfforddiant a oedd yn dangos nad oedd nifer o'r staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol. Roedd hyn yn dangos mai dim ond 44 y cant o'r staff oedd wedi cael hyfforddiant cyfredol ar atal a rheoli heintiau a dim ond 36 y cant oedd wedi cael hyfforddiant cyfredol ar Gymorth Cyntaf. Dywedwyd wrthym fod y porth ar-lein a oedd yn storio'r wybodaeth wedi dioddef chwalfa data sylweddol yn ddiweddar. Felly, nid oedd gwybodaeth lawn am yr hyfforddiant a gwblhawyd ar gael. Er bod y lleoliad wedi nodi bod manylion rhai aelodau o'r staff yn dangos nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant er eu bod, mewn gwirionedd, wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn, ni allem fod yn sicr o hyn. Dywedwyd wrthym fod rheolwr newydd y lleoliad yn ymwybodol o hyn ac yn awyddus i gasglu'r wybodaeth a diweddarau'r matrices yn unol â hynny. Yn ogystal â hyn, yn y dyfodol, bydd y lleoliad yn ei wneud yn ofynnol i'r staff ddarparu copïau o dystysgrifau cwblhau i'w cadw yn ffeiliau'r staff.

Dylai'r lleoliad sicrhau bod yr hyfforddiant perthnasol yn cael ei gwblhau heb oedi a bod y cofnodion hyfforddiant yn cael eu diweddarau.

---

<sup>10</sup><https://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/734/body/made/welsh>

<sup>11</sup> Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yn diffinio preceptoriaeth fel 'cyfnod i arwain a chefnogi pob ymarferydd sydd newydd gymhwyso i bontio o fod yn fyfyrwr i ddatblygu ei ymarfer ymhellach'.

---

Dywedwyd wrthym fod arfarniadau staff blynyddol fel arfer yn dechrau ym mis Ionawr. Roedd yr adroddiad ansawdd y cyfeiriwyd ato uchod hefyd yn nodi na chafodd unrhyw arfarniadau staff eu cwblhau yn ystod 2020 o ganlyniad i brinder adnoddau staff, wrth i'r rheolwyr fynd ati i lenwi swyddi nyrsio. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym y dylai'r rheolwr blaenorol fod wedi gwneud hyn cyn gadael ei swydd yn y lleoliad. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr wedi ymgysylltu â'r staff, er nad oedd sesiynau goruchwyllo rheolwyr llinell wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen. Nid oedd hon yn broses benodol ac nid oedd unrhyw dystiolaeth a lofnodwyd. Yn ogystal â hyn, roedd rhai problemau wedi codi o ran trosiant staff, gan gynnwys y rheolwr a'r dirprwy reolwr.

Cawsom dystiolaeth o Fatics Goruchwyllo ac Arfarnu Rheolwyr Hafan Wen ar gyfer 2021. Nododd y matrices y byddai pob aelod o'r staff yn mynychu sesiwn Goruchwyllo Rheolwyr ffurfiol gyda'i reolwr llinell bob pedair i chwe wythnos. Byddai'r sesiynau yn darparu fforwm ar gyfer materion yn ymwneud â rheolaeth a pherfformiad. Caiff sesiynau eu cynnal un i un a byddai contract ffurfiol yn cael ei gwblhau gan y ddau barti. Byddai cofnod cyfrinachol o gynnwys y sesiwn a champau gweithredu gofynnol yn cael ei gadw, i'w lofnodi gan y goruchwyllydd a'r unigolyn sy'n cael ei oruchwyllo. Byddai'r cofnodion hyn yn cael eu storio'n ddiogel, ond byddai'n rhaid i'r rhai sy'n cael eu goruchwyllo allu eu gweld pe bai angen.

Er ein bod yn hyderus y bydd y sesiynau goruchwyllo a'r arfarniadau perthnasol yn cael eu cynnal eleni, mae'n rhaid i'r lleoliad sicrhau bod hyn yn cynnwys adborth perthnasol ar berfformiad y staff yn 2020.

Mae'n rhaid i'r lleoliad hefyd gymryd camau i sicrhau bod y broses arfarnu yn cael ei chwblhau yn ôl yr angen yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael adborth ffurfiol yn rheolaidd a bod eu perfformiad yn cael ei oruchwyllo'n rheolaidd.

---

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

# Cynllun gwella

Lleoliad: CAIS Limited

Gwasanaeth Hafan Wen

Dyddiad y gweithgarwch: 19 Ionawr 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	<p>Roedd y matrices hyfforddiant yn dangos nad oedd nifer o'r staff wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Dylai'r lleoliad sicrhau bod yr hyfforddiant perthnasol yn cael ei gwblhau heb oedi a bod y cofnodion hyfforddiant yn cael eu diweddarau.</p>	Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol	<p>Mae matrices newydd wedi cael ei lunio er mwyn cynnwys yr holl aelodau newydd o staff ar ôl 2019.</p> <p>Ein darparwr hyfforddiant yw Trusted Training 4U ac mae pob aelod o'r staff wedi cael 5 modiwl hyfforddiant craidd hanfodol i'w cwblhau - Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed, Deddf Galluedd Meddyliol, Atal Heintiau, Iechyd a Diogelwch, a Chymorth</p>	Gemma Lyon (Rheolwr Preswyl)	31.03.2021

		<p>Cyntaf.</p> <p>Rhoddwyd gwybod i'r staff yn eu sesiynau goruchwyllo diweddar ei bod yn ofynnol iddynt gwblhau'r modiwlau hyn cyn gynted â phosibl.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae CAIS wedi lansio ei Academi Hyfforddiant ei hun ar gyfer y staff.</p> <p>Nod yr Academi yw cynnig cyfleoedd ychwanegol i bob aelod o'n staff ddatblygu, boed hynny mewn rôl bresennol neu rôl amgen efallai. Mae'r hyfforddiant a gynigir yn canolbwyntio ar 4 maes penodol;</p> <p>Gwasanaethau Preswyl Gwasanaethau Cymunedol Menter Gymdeithasol / Arlwyo Gweinyddol</p> <p>Mae pob un o feysydd yr Academi yn cynnwys 4 cam, ac mae angen cwblhau pob un cyn symud ymlaen i'r un nesaf.</p>	<p>Gemma Lyon (Rheolwr Preswyl)</p>	<p>30.06.2021</p>
--	--	--	---	-------------------

			<p>Mae pob cam yn cynnwys nifer o gyrsiau a thasg y bydd angen ei chwblhau hefyd.</p> <p>Bwriad pob cam yw datblygu gwybodaeth yr unigolyn ymhellach a galluogi'r unigolyn i ddangos ei allu i gymhwyso'r wybodaeth at ei waith o ddydd i ddydd.</p>		
2	<p>Ni chwblhawyd arfarniadau staff ffurfiol yn ystod 2020.</p> <p>Mae'n rhaid i'r lleoliad sicrhau bod y staff yn cael adborth ar eu perfformiad yn 2020 fel rhan o broses arfarnu 2021.</p> <p>Mae'n rhaid i'r lleoliad hefyd gymryd camau i sicrhau bod y broses arfarnu yn cael ei chwblhau yn ôl yr angen yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael adborth ffurfiol yn rheolaidd a bod eu perfformiad yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd.</p>	<p>Safon 25 Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael ei sesiwn oruchwylio gyntaf â'r rheolwr preswyl newydd bellach.</p> <p>Mae'r rheolwr wedi rhoi matrices goruchwylio ac arfarnu newydd ar waith er mwyn cynnwys sesiynau goruchwylio rheolaidd yn unol â'r fframwaith goruchwylio ar gyfer y gwasanaeth.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael contract goruchwylio newydd gyda'r rheolwr newydd.</p> <p>Mae angen i bob aelod o'r staff gwblhau arfarniad gyda'i reolwr llinell erbyn diwedd mis Mawrth 2021.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael copi o ffurflen Arfarnu CAIS gan y</p>	<p>Gemma Lyon (Rheolwr Preswyl)</p> <p>Gemma Lyon (Rheolwr Preswyl)</p> <p>Gemma Lyon (Rheolwr Preswyl)</p> <p>Gemma Lyon (Rheolwr Preswyl)</p>	<p>28.02.2021</p> <p>31.01.2021</p> <p>31.03.2021</p> <p>31.03.2021</p>

			<p>rheolwr ac amlinellwyd iddynt yr hyn sy'n ddisgwyliedig o'u harfarniad.</p> <p>Bydd yr Arweinydd Clinigol, Elizabeth Jones, Nyrs sy'n Rhagnodi, yn ailddechrau sesiynau Goruchwylio Clinigol yn y gwasanaeth yn unol â'r fframwaith Goruchwylio yn ystod Chwarter 1.</p> <p>Penodwyd dwy Nyrs Arweiniol newydd i'r gwasanaeth, a fydd yn dechrau ym mis Mawrth 2021.</p> <p>Byddant yn helpu'r Rheolwr Preswyl i lywio'r gwaith o addysgu a datblygu'r gwasanaeth ymhellach yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Clinigol ar gyfer y gwasanaeth.</p>	<p>Elizabeth Jones (Arweinydd Clinigol)</p> <p>Gemma Lyon (Rheolwr Preswyl)</p>	<p>30.04.2021</p> <p>31.03.2021</p>
--	--	--	--	---	-------------------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Gemma Lyon

Dyddiad: 12.02.2021